



Ysgol Gynradd Gwaelod y Garth Primary School

Adroddiad Blynyddol Llywodraethwyr i Rieni 2024-2025



Ysgol Gynradd Gwaelod y Garth
Main Road
Gwaelod y Garth
Caerdydd
CF15 9HJ

029 2081 0489

ysgolgwaelodygarth@cardiff.gov.uk



Y Corff Llywodraethol

Clerc y Corff Llywodraethol

Emma Taylor
Ysgol Gwaelod y Garth
Main Road
Gwaelod y Garth
Caerdydd. CF15 9HJ
029 2081 0489

Cadeirydd y Corff Llywodraethol

Non Gwilym
Ysgol Gwaelod y Garth
Main Road
Gwaelod y Garth
Caerdydd. CF15 9HJ
029 2081 0489

Ethol Riant-Llywodraethwyr

Byddwn yn ethol riant-lywodraethwyr nesaf ar **17.02.26** neu ynghynt os oes riant-lywodraethwr yn ymddiswyddo.

Aelodau'r Corff Llywodraethol

Mae gan y Corff Llywodraethol gyfrifoldebau am holl faterion llywodraethu'r ysgol, gan gynnwys y cwricwlwm, darpariaeth, cyllid, staffio a pholisïau. Mae'r Corff yn cyfarfod yn rheolaidd ac yn derbyn adroddiad gan y Pennaeth. Mae'r Cadeirydd a'r is-gadeirydd yn cael eu hethol ar ddechrau bob blwyddyn academiaidd newydd. Gellir cysylltu â'r Cadeirydd a'r Clerc drwy gysylltu â swyddfa'r ysgol.

Aelodau'r Corff Llywodraethu ar hyn o bryd yw:

		<u>Dyddiadau Aelodaeth</u>
Non Gwilym (Cadeirydd)	Llywodraethwr Cymunedol	21.10.22 – 22.10.26
Dona Lewis (Is-gadeirydd)	Rhiant-lywodraethwr	21.10.22 – 22.10.26
Helen Sharkey	Pennaeth	08.04.24 -
Sara Brown	Aelod Awdurdod Lleol	25.02.23 – 24.02.27
Rhys James	Aelod Awdurdod Lleol	29.03.23 – 31.03.27
Meurig Jones	Aelod Awdurdod Lleol	29.11.24 – 28.11.29
Huw Rolant	Llywodraethwr Cymunedol	16.06.24 – 15.06.28
Fflur Rowlands	Llywodraethwr Cymunedol	25.10.24 – 14.10.28
Fflur Rowlands	Llywodraethwr Cymunedol	10.10.24 – 09.10.28
Claire Meredith	Rhiant-lywodraethwr	12.02.25 – 11.02.29
Huw Darch	Rhiant-lywodraethwr	21.10.22 – 20.10.26
Victoria Patterson	Rhiant-lywodraethwr	02.10.23 – 01.10.27
Wendy Owen	Staff-lywodraethwyr (addysgu)	14.03.25 – 13.03.29
Debbie Thole	Staff-lywodraethwyr (cefnogi)	20.06.24 – 19.06.28



Gair gan y Cadeirydd

Mae'n bleser gennyf, ar ran y Corff Llywodraethu, gyflwyno'r Adroddiad Blynyddol i Rieni ar gyfer blwyddyn academaidd 2024–25. Bu hon yn flwyddyn lwyddiannus ac ysbrydoledig arall i Ysgol Gwaelod y Garth, wedi'i siapio gan egni, ymroddiad a chreadigrwydd ein disgyblion, staff a'r gymuned ehangach.

Fel Cadeirydd y Llywodraethwyr, rwyf wedi cael y ffrind o weld ymroddiad ein staff dysgu a chefnogi, sy'n parhau i ddarparu amgylchedd dysgu cyfoethog, gofalgar ac uchelgeisiol ar draws yr ysgol. Mae eu proffesiynoldeb, gwydnwch ac angerdd tuag at addysg y plant yn amlwg ym mhob rhan o fywyd yr ysgol, a hoffwn ddiolch yn ddiffuant iddynt ar ran y Corff Llywodraethu.

Eleni rydym wedi gweld cynnydd cryf wrth gyflawni'r Cwricwlwm i Gymru, gan sicrhau bod disgyblion yn profi dysgu ysgogol sy'n datblygu chwilfrydedd, annibyniaeth a hyder. Mae'r ysgol wedi parhau i roi blaenoriaeth i les, cynhwysiant a dysgu o ansawdd uchel, ac rydym yn falch o'r ethos ystyrlon a chynhaliol sy'n sail i bopeth sy'n digwydd yn Ysgol Gwaelod y Garth. Mae'r Llywodraethwyr wedi gweithio'n agos gyda'r Pennaeth a'r tîm arweinyddiaeth i oruchwyllo Cynllun Gwella'r ysgol, cyllid, staffio a datblygu polisïau. Ein cyfrifoldeb yw darparu her a chefnogaeth, gan sicrhau bod yr ysgol yn parhau i ffynnu. Hoffwn ddiolch i holl aelodau'r Corff Llywodraethu am eu gwaith caled, eu hymrwymiad a'u parodrwydd i roi eu hamser er budd yr ysgol.

Rydym hefyd yn ddiolchgar am y bartneriaeth gref gyda rhieni a gofalcwyr. Mae eich cefnogaeth, eich anogaeth a'ch ymrwymiad yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i brofiadau ein plant. Diolch arbennig hefyd i'r Gymdeithas Rhieni ac Athrawon am eu brwdfrydedd a'u hymdrechion codi arian, sy'n sicrhau yn cyfoethogi bywyd yr ysgol.

Yn bwysicaf oll, rwyf am gydnabod disgyblion Ysgol Gwaelod y Garth. Mae eu brwdfrydedd, caredigrwydd, creadigrwydd a'u penderfyniad wrth galon popeth. Maen nhw'n cynrychioli gwerthoedd ein hysgol, ac mae'n ffrind eu gweld nhw'n tyfu ac yn ffynnu.

Wrth inni edrych ymlaen, mae'r Corff Llywodraethu'n parhau yn ymrwymedig i sicrhau bod Ysgol Gwaelod y Garth yn ysgol hapus, gynhwysol ac uchelgeisiol ac wedi ei wreiddio yng nghanol y gymuned. Edrychwn ymlaen at adeiladu ar lwyddiannau'r flwyddyn hon ac i weithio'n agos gyda'r Awdurdod Lleol i sicrhau bod yr ysgol yn parhau i ffynnu.

Diolch am eich cefnogaeth barhaus.

Dona Lewis
Cadeirydd Dros-dro



Dyddiadau'r Tymor 2025-26

	Dechrau	Hanner Tymor	Gorffen
Tymor yr Hydref	01.09.25	27.10.25 – 31.11.25	15.12.25
Tymor y Gwanwyn	06.01.26	16.02.26 – 20.02.26	27.03.26
Tymor yr Haf	13.04.26	25.05.26 – 29.05.26	20.07.26

Bydd yr ysgol ar gau ar Ŵyl Banc Calan Mai, sef Dydd Llun 04.05.26. Bydd yr ysgol ar gau i blant ar gyfer diwrnodau HMS ar y diwrnodau canlynol:

Dydd Llun 01.09.25

Dydd Mawrth 02.09.25

Dydd Gwener 24.10.25

Dydd Llun 05.01.26

Dydd Gwener 22.05.26

Dydd Llun 20.07.26

Amserau'r Dydd

Mae amserau'r diwrnod ysgol fel a ganlyn:

	Cychwyn*	Chwarae Bore	Cinio	Chwarae Prynhawn	Gorffen
Derbyn – B2	09:00	10:15 – 10:35	12:00 – 13:00	14.15 – 14.30	15:30
B3 – B6	09:00	10:40 – 11:00	12:00 – 13:00	14:30 – 14:45	15:30

* Agorir gatiau bore am 8:50 a'u cau am 9:00yb.

Meithrin:

	Cychwyn	Gorffen
Meithrin Bore	09:00	11:30
Meithrin Prynhawn	13:00	15:30

Prosbectws yr Ysgol

Rydym yn adolygu Prosbectws yr Ysgol yn flynyddol er mwyn adlewyrchu newidiadau gweithdrefnol a llywodraethol. Mae rhestr staffio a dyddiadau'r tymor wedi'u hadnewyddu yn y prosbectws eleni. Ceir copi o'r prosbectws ar wefan yr ysgol:

[Cliciwch Yma](#)

Polisiâu'r Ysgol

Mae'r ysgol yn rheolaidd yn archwilio ac yn asesu llwyddiant yr holl strategaethau gaiff eu defnyddio yn yr ysgol. Mae'r ysgol wedi paratoi nifer o ddogfennau polisi sy'n trafod meysydd y cwricwlwm ac agweddau eraill ar fywyd yr ysgol. Mae'r staff a'r llywodraethwyr yn adolygu'r rhain yn barhaus ac yn eu diweddarau ar gyfer cynnwys datblygiadau a gofynion deddfau newydd.



Cyllid

Cyfanswm cyllid yr ysgol yn 2024-25 oedd **£1,217,247**. Gyda chytundeb Cyngor Caerdydd, gosodwyd cyllideb diffyg rhagamcanol o **-£88,294** ar gychwyn y flwyddyn. Erbyn diwedd y flwyddyn, roedd gan yr ysgol ddiffyg o **-£36,506** sef **3%** o'r cyllid. Gwariwyd rhan fwyaf o'r cyllid ar staffio. Gwariwyd tua **£32,000** ar adnoddau dysgu. Ni dderbyniodd aelodau'r corff llywodraethol gyllid eleni am deithio na chynhaliaeth.

Derbyniodd yr ysgol **£19,550** mewn ffurf Grant Datblygu Plentyn (PDG) a chafodd ei wario ar ymyraethau er mwyn hybu cyrhaeddiad a lles.

Gyda chytundeb Cyngor Caerdydd, gosodwyd cyllideb diffyg rhagamcanol o **-£192,381** ar gyfer diwedd blwyddyn cyllidol 2025-6, sydd yn **16.92%** o gyllid yr ysgol. Mae sefyllfa gyllidol yr ysgol yn debyg i nifer o ysgolion eraill wrth wynebu costau cynyddol o fewn cyd-destun ariannol heriol yn lleol ac yn genedlaethol. Mae'r Corff Llywodraethol yn cydnabod yr heriau sydd yn bodoli yn sgil yr ariannu presennol. Rydym wedi ymrwymo i barhau i ddarparu addysg o'r radd flaenaf i holl ddisgyblion yr ysgol.

Yr Ysgol a'r Gymuned

Mae cymuned yn rhan annatod ac unigryw o ethos Ysgol Gwaelod y Garth ac rydym yn gweithio'n barhaus i feithrin ac adeiladu cysylltiadau cymunedol o fewn a thu hwnt i furiau'r ysgol. Cyfoethogir addysg ein plant trwy bartneriaeth lwyddiannus rhwng y cartref, yr ysgol, a'r gymuned leol. Mae hyn yn cynnwys amryw o ymweliadau cymunedol ac addysgol, ymwelwyr cyson iawn â'r ysgol sydd hefyd yn cyfoethogi profiadau cwricwlaidd ein plant, ymweliadau preswyl Llangrannog, Maes y Fron a Chanolfan Urdd y Bae, cymorth rhieni niferus (e.e. darllen, Cyngor Eco, ymweliadau, profiadau cwricwlaidd), cysylltiadau ac asiantaethau lleol megis yr Heddlu a'r Gwasanaeth Ddan ac ymweliadau cyson iawn â'r goedwig, caeau ac ardal leol ymhlith eraill. Mae'r bartneriaeth wythnosol rhwng aelodau'r WI a disgyblion Blwyddyn 5, sydd wedi parhau ers blynnyddoedd bellach, yn elfen unigryw ac arbennig o'n cysylltiadau cymunedol. Gwelir gofnod o'r amryw weithgareddau ar gyfrif Instagram bywiog yr ysgol ac ar gyfrifon SeeSaw neu Google Classrooms dosbarthiadau unigol.

Rydym yn falch o allu bod wedi cefnogi nifer o elusennau lleol eto dros y flwyddyn. Casglwyd £253.12 ar Ddiwrnod **Plant Mewn Angen**, £123.50 tuag at **Epilepsy Society** a £192.50 i elusen **Heart Heroes**. Eleni, sefydlwyd casgliad **Banc Bwyd misol** ar y cyd â Rotari'r Garth, gan gynnwys casgliad ar gyfer ein Dathliad Cynhaeaf.

Rydym yn ffodus iawn fel ysgol o gael cefnogaeth **Cymdeithas Rhieni ac Athrawon (CRhA)** bywiog iawn yn yr ysgol. Er ei fod yn sefydliad ar wahân nad sydd yn cael ei lywodraethu gan yr ysgol, mae'r gymdeithas yn gefnogol iawn ac yn cynnal nifer o weithgareddau yn flynyddol sydd nid yn unig yn codi arian ond hefyd yn cyfoethogi cymuned yr ysgol. Trwy amrywiol weithgareddau cymunedol, codwyd swm anhygoel o **£14,346** eleni gan y **CRhA** ac fe fydd pob ceiniog yn mynd at adnoddau i'ch plant chi. Fe'ch anogwn i gefnogi gweithgareddau **CRhA** am gyfle i godi arian a chael hwyl ar yr un pryd!



Gweithgareddau Chwaraeon

Mae holl blant yr ysgol yn cael mynediad i weithgareddau Addysg Gorfforol yn wythnosol fel rhan o gwricwlwm yr ysgol. Cynigir hefyd glybiau chwaraeon allgyrsiol. Mae'r disgyblion yn cystadlu'n reolaidd mewn amryw o weithgareddau a chystadleuaeth chwaraeon, gan gynnwys:

Gweithdai Criced
Pêl-droed yr Urdd
Pêl-rwyd yr Urdd
Diwrnod/Wythnos Lles

Gwersi Seiclo B6
Gymnasteg yr Urdd
Criced yr Urdd
Nofio B4

Trawsgwlad yr Urdd
Rygbi Tag yr Urdd
Gwersi rygbi'r Urdd
Cystadlaethau Dawns



Iechyd a Diogelwch

Mae dau fynedfa ac allanfa allanol i safle'r ysgol. Caiff y gatiau eu cloi yn ystod y diwrnod ysgol. Rhaid i bob ymwelydd siarad yn uniongyrchol â staff y swyddfa er mwyn cael mynediad i'r safle. Rhaid i bob ymwelydd fewngofnodi yn y brif dderbynfa.

Mae gan 4 aelod o staff Tystysgrif Cymorth Cyntaf estynedig. Mae nifer o bwyntiau cymorth cyntaf o amgylch yr ysgol. Lleolir diffibriliwr yn y Neuadd. Er mwyn hygyrchedd, mae mynediad i bob ardal o'r ysgol o'r fynedfa blaen ar gyfer disgyblion ac oedolion ag anghenion symudedd.

Mae gan yr ysgol bolisi iechyd a Diogelwch cynhwysfawr, sy'n cael ei ddilyn i sicrhau fod amgylchedd diogel trwy'r ysgol. Mae swyddog iechyd a Diogelwch yr awdurdod yn ymweld â'r ysgol o leiaf bob hanner tymor.

Mae gan yr ysgol gyfleusterau toiledau gofynnol ar gyfer ysgol o'i maint. Cânt eu glanhau o leiaf unwaith y dydd gan staff glanhau sydd yn gyflogedig gan yr ysgol. Mae gan yr ysgol bolisi Toiledau sy'n cydymffurfio â'r gofynion statudol. Os caiff pryderon eu mynegi ynghylch eu glanweithdra neu adnoddau eir i'r afael â'r mater cyn gynted ag y bo modd.

Y llywodraethwr penodedig ar gyfer iechyd a Diogelwch ydy Mr Rhys James.



EIN GWELEDIGAETH

Ysbrydoli - Cefnogi - Llwyddo

Ein nod fel ysgol yw darparu'r safonau addysgu a'r cefnogaeth gorau posibl i bob disgybl o fewn amgylchedd lle bo gan bawb gyfleoedd niferus i gyflawni a rhagori ar eu potensial.

Mae ein cymuned a'n cynefin yma yn ysgol Gwaelod y Garth yn darparu amrediad o gyfleoedd cyfoethog sydd yn **ysbrydoli** ein disgyblion i fod yn ddysgwyr uchelgeisiol ac ymchwilgar. Mae'r ardal wledig, y goedwig a'r mynydd yn rhoi profiadau awyr agored buddiol ac yn annog annibyniaeth a chwilfrydedd. Mae'r gymuned yn rhan annatod o'n cynefin ac rydym yn cydweithio ag aelodau'r gymuned i adeiladu ar yr ymdeimlad o **berthyn** sy'n nodweddiadol i ni. Mae'r cyd-berthynas weithredol yma yn ganolog i fywyd ysgol Gwaelod y Garth wrth i botensial pob disgybl gael ei feithrin yn yr ysgol, yn y gymuned a thu hwnt.

Mae dwyieithrwydd yn cael ei ddathlu yn ein hysgol a'r cydweithio naturiol rhwng y ddwy ffrwd yn ein galluogi i feithrin disgyblion hyderus sy'n ymfalchïo yn eu hiaith a'u diwylliant. Bydd pob disgybl yn cael eu herio ac mae disgwyliadau uchel yn rhan annatod o'n hysgol. Bydd pob disgybl yn derbyn pob **cefnogaeth** posib er mwyn **llwyddo** ac ymfalchïwn yn yr ethos cefnogol, cynhwysol sydd yn ein hysgol. Caiff pob disgybl eu hannog i fod y gorau y gallant fod.

Yn sgil ein pwyllgorau **Llais**, rydym yn annog pob disgybl i gyfrannu at fywyd ein hysgol ac i wneud penderfyniadau strategol. Cant eu hannog i wneud dewisiadau fydd yn cael effaith gadarnhaol ar eu hysgol, eu cymuned, eu gwlad a'r byd ehangach. Gwerthfawrogn natur aml ddiwylliannol ein hardal a'r brif ddinas, gan annog disgyblion parchus a gofalgwr sy'n dathlu eu gwahaniaethau. Yn Ysgol Gwaelod y Garth rydym yn ymfalchïo yn ein hunaniaeth a'n Cymreictod a bydd ein cwricwlwm yn dathlu ein hieithoedd, ein hanesion, ein diwylliant a'n cynefin.





Cwricwlwm, Trefniadaeth Addysgol a Dulliau Addysgu

Mae Ysgol Gwaelod y Garth yn darparu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg mewn dwy ffrwd. Mae wyth dosbarth oed sengl yn y ffrwd Gymraeg a dau ddosbarth oed cymysg yn y ffrwd Saesneg. Yn yr Adran Gymraeg, disgwylir i ddisgyblion a staff ddefnyddio'r iaith bob amser. Cefnogir plant sydd yn newydd i'r Gymraeg i ddatblygu eu sgiliau ieithyddol Cymraeg.

Defnyddir ystod o ddulliau addysgu er mwyn ysgogi'n plant a hyrwyddo cynnydd. Mae addysgegau'r cwricwlwm newydd ar waith yn barhaus yn yr ysgol er mwyn cefnogi pob disgybl i fod yn ddysgwyr uchelgeisiol, galluog, yn gyfranwyr mentrus, creadigol, yn ddinasyddion egwyddorol, gwybodus ac yn unigolion iach, hyderus.



Cynhwysiant, Cydraddoldeb a Hygyrchedd

Rydym yn falch o fod yn ysgol sy'n dathlu amrywiaeth o bob math ac fe gymerwn pob cam posib er mwyn hybu cynhwysiant holl aelodau'r gymuned. Credwn fod pob unigolyn yn haeddu cyfle cyfartal i lwyddo. Caiff materion a gofynion hygyrchedd eu hadolygu'n gyson er mwyn ymateb i anghenion ein disgyblion a'n cymuned ehangach.

Mae gan yr ysgol Bolisi Cydraddoldeb ynghyd â Chynllun Cydraddoldeb Strategol. Eu nod yw hyrwyddo perthnasau da i barchu a gwerthfawrogi amrywiaeth ac i hyrwyddo tegwch a chyfle cyfartal i bawb. Anelwn at gael gwared ar aflonyddwch a gwahaniaethu anghyfreithlon ar sail rhyw, ethnigrwydd, iaith, crefydd, anabledd neu gyfeiriad rhywiol er mwyn gosod parch tegwch a chydraddoldeb wrth galon cymuned yr ysgol.



Ysgol Iach

Mae iechyd a lles yn rhan sylweddol ac annatod o'n cwricwlwm i'r holl ddisgyblion er mwyn sicrhau eu bod yn cael gwybodaeth a dealltwriaeth eang o faterion iechyd ac yn datblygu'r sgiliau a'r agweddau priodol sy'n arwain at ffordd o fyw cyfrifol ac iach. Mae'r ysgol wedi cwblhau'r gwaith ar gyfer y wobr Ansawdd Cenedlaethol Ysgolion Iach. Rydym yn defnyddio holiaduron iechyd a lles yn rheolaidd i sicrhau ein bod yn deall anghenion iechyd a lles ac yna'n addasu'r ddarpariaeth yn ôl y galw.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo bwyta'n iach. Mae plant o'r Feithrin i Flwyddyn 2 yn derbyn byrbryd iach a llaeth am ddim bob dydd. Anogir disgyblion Blwyddyn 3-6 i ddod â ffrwythau i'r ysgol yn ddyddiol i'w bwyta yn ystod amser chwarae. Anogir pob plentyn hefyd i ddod â photel o ddŵr i'r ysgol yn ddyddiol ac mae disgyblion yn cael eu hannog i yfed dŵr yn rheolaidd yn ystod y dydd. Mae'r ysgol wedi cymryd rhan yn y prosiect "Bocsys Cinio Iach" ac mae'r disgyblion wedi paratoi gwybodaeth i rieni a disgyblion am fwyta'n iach.

Addysgir Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn unol â gofynion Cwricwlwm i Gymru ac yn unol ag oed datblygiadol ein disgyblion.



Estyn

Cafodd yr ysgol ei harolygu ym mis Rhagfyr 2019. Mae'r adroddiad yn ganmoladwy a dyfarnwyd bod yr ysgol yn cyrraedd safon 'Da' ym mhob maes arolygu. Mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd da wrth ymateb i'r argymhellion a nodwyd yn yr adroddiad, sef:

1. Sicrhau bod disgwyliadau'r holl athrawon yn galluogi pob un o'r disgyblion i gyflawni
2. Sicrhau bod cyfleoedd cyson i ddisgyblion cyfnod sylfaen wneud dewisiadau ynglŷn â'u dysgu er mwyn datblygu fel dysgwyr annibynnol.
3. Codi safon medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu disgyblion.

I weld yr adroddiad llawn ewch i: [Adroddiad Estyn](#)



Cynllun Gwella Ysgol

Gwnaed cynnydd da yn erbyn blaenoriaethau gwella 2024-25, sef:

- Cwricwlwm
- Addysgeg
- Lles a Chynhwysiant
- Llafar a Darllen
- Arweinyddiaeth

Mae Cynllun Gwella'r Ysgol ar gyfer blwyddyn academiaidd 2025-26 wedi'i lunio. Mae'r targedau a osodwyd yn cynnwys amcanion byr dymor, tymor canolig a hir dymor. Caiff y targedau a'r gweithgareddau cysylltiedig eu hadolygu'n gyson gan Staff, y Corff Llywodraethol a chan Bartner Cydweithredol ysgol sydd yn cefnogi'r ysgol ar ran Cyngor Caerdydd.

Blaenoriaethau gwella'r ysgol ar gyfer 2025-26 yw:

1. **Medrau Llythrennedd:** Sut allwn ni ddatblygu ymhellach i roi cyfleoedd ychwanegol i ddisgyblion ddatblygu eu sgiliau llafar a darllen Cymraeg?
2. **Addysgeg:** Sut allwn ni ddatblygu a chysoni addysgeg effeithiol i sicrhau bod dysgwyr yn gwneud y cynnydd gorau posib?
3. **Asesu a thracio:** Sut allwn ni adeiladu ar systemau tracio presennol er mwyn sicrhau safonau uchel, adnabod angen yn gynnar ac adnabod camau nesaf i bob disgybl?
4. **Lles a Chynhwysiant:** Sut allwn ni ddatblygu ein defnydd o ddulliau adferol ac oes posib cyfoethogi ein darpariaeth lles a chynhwysiant mewn ffordd sydd yn hybu lles pawb?





Presenoldeb

Mae'r ysgol yn gweithio'n agos gyda'r Swyddog Presenoldeb i fonitro presenoldeb disgyblion. Rydym yn gweithio'n agos gyda theuluoedd lle bo pryderon am bresenoldeb trwy gynnig gofal, cymorth ac arweiniad. Mae'r canrannau presenoldeb dros y 3 mlynedd ddiwethaf fel a ganlyn:

	Canran Presenoldeb	Absenoldeb awdurdodedig	Absenoldeb anawdurdodedig
2022-23	93.6%	4.6%	1.8%
2023-24	95.2%	3.4%	1.4%
2024-25	95.1%	3.9%	1.1%



Pwyllgorau Llais a'r Cyngor Ysgol

Mae gwrando ar lais ein disgyblion yn ethos bwysig ar gyfer cynllunio gwelliant yn ysgol Gwaelod y Garth. Mae gennym senedd ysgol o'r enw "Llais" sy'n cynnwys y Cyngor Ysgol a chwe phwyllgor dysgwyr sydd yn cynnwys pob disgybl o Flwyddyn 3 i 6:

Dewiniaid Digidol

Llysgenhaddon Lles

Dysgwyr Difyr

Cyngor Eco

Dinasyddion y Dyfodol

Dreigiau Doeth

Mae'r disgyblion yn rhan strategol o lunio a gweithredu gweledigaeth ein hysgol. Mae enghreifftiau o gynllun strategol a phrosiectau'r pwyllgorau i'w gweld ar ein gwefan.

Mae'r Cyngor Ysgol yn cyfarfod yn rheolaidd ac mae ganddynt lais cryf wrth roi barn ar gryfderau ac agweddau i'w gwella. Etholir aelodau newydd i'r Cyngor Ysgol yn flynyddol.



Ymadawyr Blwyddyn 6 2024-5

Dymuna'r Corff Llywodraethol ddiolch i'r holl staff, i deuluoedd ac i gymuned yr ysgol am bob cefnogaeth a chydweithrediad gydol y flwyddyn.